Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

8. Rheoli arian

8.4 Monitro gwariant a chyllideb

Mae gan fwrdd llywodraethol mudiad gwirfoddol (pwyllgor rheoli, bwrdd llywodraethol ac ati) gyfrifoldeb i reoli arian y mudiad ac adrodd nôl arnynt yn ôl y gyfraith. Er mwyn gwneud hyn yn iawn ac yn effeithiol, dylai'r mudiad edrych yn barhaus ar reoli arian. Mewn geiriau eraill, peidiwch gadael y cyfan tan ddiwedd y flwyddyn ariannol a cheisio'i sortio bryd hynny. Mae yna nifer o faterion allweddol neilltuol y dylid eu hystyried gan fyrddau llywodraethol.

Yn anad dim, dylai mudiadau gwirfoddol fonitro'u harian drwy gyllido'n ofalus.

Nid yn unig dal arian yw rheoli arian. Mae dal symiau mawr o arian anactif mewn cronfa yn wrthgynhyrchiol. Llawer gwell fyddai defnyddio cyfrif banc sy'n cynhyrchu llog tra bod yr arian yn aros i'w ddefnyddio (megis 'Cyfrif Trysorydd'). Yn ddibynnol ar amseru anghenion yr arian yn ogystal â maint y symiau i'w talu mewn, dylai fod yn bosib uchafu llog drwy ddewis ystod o gyfrifon cadw. Byddai'n fuddiol rhoi gwybod i'r banc os ydych yn elusen, fel y gellir ychwanegu llog gros h.y. heb dreth. Byddai'n well efallai i fuddsoddi symiau hirach o arian mewn buddsoddiadau megis stociau a chyfrannau.

Rhyddhad treth

Dylai elusennau ddefnyddio'r ad-daliadau treth sydd ar gael iddynt. Dylid annog cyfranwyr sy'n talu treth i ddefnyddio Gift Aid. Oherwydd bod y cyfrannwr yn talu swm, sy'n net o dreth gyfradd sylfaenol, ac yn derbyn ad-daliad ar y taliad, mae hawl gan yr elusen dderbyn ad-daliad o'r dreth drwy ei adennill o'r Cyllid Gwladol.

Llif arian

Ystyr *cyfalaf ar waith* mudiad yw arian mewn llaw, yn y banc neu 'arian agos' a buddsoddiadau (ond nid buddsoddiadau hir dymor fel 'asedau buddsoddi').

Prif elfennau eraill yw stoc nwyddau ar werth, arian sy'n ddyledus i'r elusen heblaw'r arian sy'n ddyledus gan yr elusen. Mae'n hanfodol fod elusen yn gwneud y mwyaf o'r arian sydd ganddi, drwy sicrhau bod yr arian sy'n ddyledus yn cael ei gasglu cyn gynted â phosib, a gohirio taliad arian cyn hwyed â phosib yn rhesymol, er dylid gofalu nad achosir llog cosb. Gall gohirio taliadau i gyflenwyr beryglu cyflenwadau yn y dyfodol. Mae'n eitha rhesymol i ddefnyddio termau talu llawn a gynigir gan y cyflenwr.

Dylid cymharu unrhyw ostyngiadau a gynigir gan gyflenwyr â cholled llog ar daliad cynnar gan y mudiad.

Os yw mudiad yn derbyn grantiau, dylid sicrhau y dylid eu talu yn brydlon ar y dyddiad a nodir gan yr ariannwr. Dylai mudiadau gynllunio ar y sail yma ond dylent gael strategaeth i'w ddefnyddio os yw'r taliad yn hwyr. Os oes yna broblem, dylid trafod gyda'r ariannwr.

Pryniant ased sefydlog

Gan ddibynnu ar adnoddau'r mudiad, mae'n bwysig ystyried yr opsiynau sydd ar gael wrth brynu asedau sefydlog, hynny yw, pryniant cyfalaf megis cyfarpar. Mae talu'n syth yn opsiwn, ond mae'n bosib gwasgaru'r taliadau dros gyfnod o fisoedd drwy ddefnyddio hur-bwrcas neu gynlluniau pwrcasu les. Oherwydd bod y cynlluniau yma yn fenthyciadau yn y bôn, mae yna gost benthyca a fydd yn cynyddu'r pris llawn. Gwyliwch hefyd rhag y cosbau ar daliadau cynnar.

Beth yw cyllideb?

Cyllideb yw cynllun a drosir i dermau ariannol am gyfnod amser penodol, gan amlaf am flwyddyn o Ebrill i Fawrth neu o Ionawr i Ragfyr.

Pwy sy'n gyfrifol am reoli'r gyllideb?

Mae cyfrifoldeb gosod ac arolygu cyllideb yn rhan o waith y pwyllgor rheoli gwirfoddol. Dyma ran o'r cynllunio strategaethol. Bydd gan staff hŷn a chyllid gyfrifoldebau yn y broses gyllid, er enghraifft, sicrhau fod y pwyllgor yn gweld gwybodaeth ariannol sy'n berthnasol, yn gyfredol, yn gywir ac yn ddealladwy.

Beth yw'r broses gyllidebol?

Mae cyllid y mwyafrif o fudiadau yn weithgaredd cylchol o fewn y flwyddyn ariannol:
Yr adran / swyddog cyllid yn darparu deiliaid cyllid gyda chynllun a thaflenni gwaith cyllidol chwe mis cyn dechrau'r gyllideb.
Y deiliaid cyllid yn crynhoi'r cyllid ar gyfer eu gweithgaredd a'i ddychwelyd i'r swyddog cyllid sy'n gyfrifol.
Yr adran / swyddog cyllid yn crynhoi'r cyfan i gyllideb gyfansawdd.
Y tîm rheoli yn adolygu hwn ac yn ceisio cymeradwyaeth gan **y pwyllgor rheoli.**
Mewn mudiadau gwirfoddol llai bydd y broses yn un anffurfiol.

Sut beth fydd cyllideb?

Mae cyllideb syml yn amcangyfrif incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn i ddod mewn ffurf tabl. Mae pob llinell yn awdurdodiad i wario neu'n darged cyflawni. Bydd rhai colofnau'n torri i lawr i gyfnodau llai, e.e. chwarteri, ac eraill yn caniatáu ffigurau gwir i'w cynnwys ar ddiwedd pob cyfnod.

Beth sydd ynghlwm wrth baratoi a chyflwyno cyllideb?

Bydd un gyllideb yn ddigon i fudiadau bach. Efallai bydd rhaid i fudiadau mwy o faint a mwy cymhleth ddatblygu cyllideb gyfansawdd a chyllidebau llai yn deillio o hyn. Yn ogystal â chyllideb gyfansawdd, bydd angen cyllideb llif arian ychwanegol. Bydd hwn yn nodi mewnlif ac all-lif disgwyliedig, a thrwy ei gymharu â beth sy'n digwydd, gall y mudiad ragweld problemau a gweithredu'n gynnar i ddelio â hwy.

Gall y gyllideb a'i eitemau penodol amrywio dros y flwyddyn. Mae cyllideb sefydlog yn rhoi un amcangyfrif incwm a gwariant yn unig ar un lefel o weithgaredd. Mae cyllideb hyblyg yn nodi eitemau a all amrywio o amgylch y gweithgaredd e.e. unedau a werthir neu achosion i'w trafod, ac yn darparu ffigurau eraill am bob lefel.

Beth yw rhagweld?

Dyma broses sy'n gofyn cwestiynau syml ond ymarferol megis 'costiodd gymaint â hyn llynedd, ond faint fydd yn costio flwyddyn nesaf?' Gall rhagweld gynnwys dadansoddiad cryfderau a gwendidau ffynonellau incwm. Mae gwahaniaethau amseru rhwng derbyn incwm a thalu gwariant yn ystyriaeth hefyd. Gall darlun ariannol iachus guddio problemau llif arian ar rai adegau, a bydd angen gweithredu ataliol e.e. benthyciadau pontio neu drafodaeth gydag arianwyr.

Sut trinnir y wybodaeth o gyllidebau'r gorffennol?

Pan yw eitem gyllideb yn dilyn ymlaen o flwyddyn flaenorol mae yna ddau ddewis:

- Cyrraedd at ffigwr diweddar drwy gymhwyso cynnydd canran (dull cynyddol)
- Ail-gyfrifo'r eitem (dull cyfradd sero).

Er y gall y dull cynyddol arwain at anghywirdeb, gall defnyddio dull cyfradd sero gymryd llawer o amser. Dylid gwneud asesiad i weld beth yw'r cydbwysedd gorau rhwng y ddau ddull.

Beth sy'n angenrheidiol ar gyfer monitro ac adrodd ar y gyllideb?

Fel arfer, bydd y Trysorydd neu'r swyddog cyllid yn cymharu'n rheolaidd y canlyniadau gwir yn erbyn y gyllideb. Adroddir y wybodaeth yma i'r 'deiliaid cyllid', y rheolwyr gyda chyfrifoldeb am ran o'r gyllideb lawn. Gall y deiliaid cyllid naill ai gymryd camau i wella neu fod yn dawel eu meddwl fod popeth yn iawn. Dylai swyddogion cyllid a deiliaid cyllid adrodd nôl yn rheolaidd i'r pwyllgor rheoli gwirfoddol.

Gwybodaeth bellach

Cyllid a Thollau EM
Ffôn: 0845 010 9000
www.hmrc.gov.uk

Comisiwn Elusennau Lloegr a Chymru
Ffôn: 0845 3000 218
www.charity-commission.gov.uk

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Bryndulais, 67 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7AB
Elusen Gofrestredig *1061364*

Ffôn: 01570 423232 gen@cavo.org.uk
Ffacs: 01570 422427 www.cavo.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:01/12/2009

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk